

28 Awst 2026

At ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sydd o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein:

Mae dyletswyddau diogelwch yn parhau i fod mewn grym ac mae Ofcom yn disgwyl cydymffurfiaeth lawn

Ar 15 Mehefin 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i gyflwyno mesurau newydd i gryfhau diogelwch ar-lein i blant, gan gynnwys gwaharddiad cyfryngau cymdeithasol i blant dan 16 oed a chyfyngiadau ar rai nodweddion risg uchel. Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am y cynigion hyn gan y Llywodraeth ar 17 Gorffennaf 2026.¹

Hoffwn bwysleisio nad yw'r cyhoeddiadau hyn am fesurau diogelwch ar-lein yn y dyfodol wedi effeithio ar rwymedigaethau presennol darparwyr o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch plant a chynnwys anghyfreithlon presennol, yn erbyn cefndir lle mae ein [hymchwil a'n tystiolaeth](#) yn dangos bod plant yn parhau i fod yn agored i lefelau annerbyniol o gynnwys a gweithgareddau niweidiol ar-lein.

Cyfrifoldebau presennol darparwyr gwasanaeth i ddiogelu plant ar-lein

I'ch atgoffa, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gwblhau Asesiadau Mynediad i Blant, a lle mae gwasanaethau yn debygol o gael eu cyrchu gan blant, rhaid iddynt:

- nodi ac asesu risgiau perthnasol gan ddefnyddio Cofrestr Risgiau a Phroffiliau Risg Plant Ofcom;
- gweithredu'r mesurau yng Nghodau Ymarfer Ofcom neu gymryd mesurau amgen sy'n bodloni'r dyletswyddau diogelwch plant yn yr un modd;
- cadw cofnodion priodol er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau cadw cofnodion ac adolygu.

Rhaid i bob darparwr gwasanaeth hefyd barhau i asesu'r risgiau o weithgarwch anghyfreithlon a allai effeithio ar blant a chymryd camau perthnasol i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Am ragor o wybodaeth am gyfrifoldebau gwasanaethau i ddiogelu plant ar-lein, edrychwch ar ein hadnoddau diwydiant [yma](#), gan gynnwys offer i helpu i gwblhau asesiadau risg a nodi mesurau diogelwch perthnasol. Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn ein bwletin diwydiant [yma](#) i gael diweddariadau chwarterol ar yr hyn y mae angen i wasanaethau ei wybod a'i wneud, dolenni i gyhoeddiadau a chanllawiau newydd, a gwybodaeth am sut rydym yn cymryd camau i ysgogi gwelliannau i ddefnyddwyr ar-lein.

Rheolau newydd disgwyledig i ddiogelu plant rhag niwed ar-lein

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bwriad i gyflwyno mesurau diogelwch pellach i blant ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys: gwaharddiad ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol rhag darparu eu gwasanaethau i rai dan 16 oed; atal rhai dan 16 oed rhag cael mynediad at swyddogaethau niweidiol ar wasanaethau ar-lein eraill, gan gynnwys gwasanaethau chwarae gemau; gofyn am gyfyngiadau

¹ Gweler rhagor o wybodaeth am gyhoeddiadau'r Llywodraeth [yma](#). [Cyrchwyd 14 Awst 2026]

diofyn ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed rhag swyddogaethau niweidiol ac atal rhai dan 18 oed rhag cael mynediad at wasanaethau sgwrsfot AI sy'n cynnig cynnwys rhywiol yn bennaf.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd rhai o'r mesurau newydd hyn yn dod i rym o wanwyn 2027 ac, ochr yn ochr â'n gweithrediad parhaus o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i baratoi ar gyfer ehangu'r gyfundrefn diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad cyflym o sicrwydd oedran hynod effeithiol 16 oed, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref. Byddwn hefyd yn ystyried a yw newidiadau i'r gyfundrefn yn gofyn am ddiweddariadau i'n cynhyrchion rheoleiddio presennol, gan gynnwys ein canllawiau a'n Codau Ymarfer, a byddwn yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw ddiweddariadau o'r fath.


Mae Ofcom yn disgwyl camau gweithredu i ddiogelu plant nawr

Rydym yn deall y bydd llawer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes yn ystyried goblygiadau'r gwelliannau diogelwch ar-lein a gyhoeddwyd i'w gwasanaethau. Fodd bynnag, nes bod unrhyw newidiadau cyfreithiol i ddyletswyddau darparwyr yn dod i rym, mae'r rhwymedigaethau presennol o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn parhau i fod yn berthnasol, ac rydym yn disgwyl cydymffurfiaeth lawn â'r dyletswyddau hynny nawr, gan ystyried ein Codau a'n canllawiau.

Ym mis Mai, nodais [ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu](#): Gwella diogelwch i blant; cael gwared ar gynnwys anghyfreithlon, yn enwedig casineb a therfysgaeth; a diogelu menywod a merched. Mae'r blaenoriaethau hyn yn parhau heb eu newid a byddant yn parhau i yrru ein gwaith yn y misoedd nesaf. Lle mae darparwyr wedi [ymrwymo i welliannau diogelwch](#), rydym yn disgwyl i'r mesurau hynny gael eu gweithredu'n effeithiol ac ar unwaith a byddwn yn monitro'r gweithrediad yn agos.

Ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau gorfodi os bydd gwasanaethau'n methu â chydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch presennol.

Yn gywir



Oliver Griffiths